Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Canolfan Feddygol Albany, Casnewydd
## Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-236-2
© Hawlfraint y Goron 2023

Nodwyd bod y rheolwr cofrestredig a'r staff yn y clinig yn gweithio i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion wrth iddynt gael triniaethau colli pwysau.

Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith ac roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol.

Nodwyd bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn y clinig ar adeg yr arolygiad.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon ac yn cael gwybod am unrhyw oedi.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Albany ar 6 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant yn y clinig.

Yn seiliedig ar ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad, roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd trefniadau hefyd ar waith i gleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig ac roedd canlyniadau'r adolygiadau hynny wedi'u harddangos.

Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a byddent yn cael gwybod pe bai oedi.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant
- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

> *"Gwybodus iawn am y driniaeth ac yn ystod y driniaeth. Gwasanaeth ardderchog ar ôl y driniaeth wir wedi creu argraff."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd trefniadau addas ar waith yn y clinig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Ar y cyfan, roedd prosesau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol i archwilio'r cyfarpar a ddefnyddir.

Roedd tystiolaeth o drefniadau atal a rheoli heintiau a diogelu yn y clinig.

Nodwyd rhai materion yn ystod yr arolygiad a thynnwyd sylw'r tîm rheoli at y rhain. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion ychwanegol yng nghofnodion meddygol y cleifion a sicrhau bod nwyddau yn cael eu derbyn gan glinigydd.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhoi gwybodaeth i'r cleifion am y feddyginiaeth a ddarperir
- Cofnodi gwybodaeth ychwanegol yng nghofnodion meddygol y cleifion
- Rhoi gwybod i'r cleifion ymlaen llaw am y cyfyngiadau yn y clinig i gleifion â phroblemau symudedd

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd teclyn mesur pwysedd gwaed heb gyswllt yn cael ei ddefnyddio
- Roedd trefniadau diogelu ac atal a rheoli heintiau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion
- Roedd cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Ar y cyfan, nodwyd bod llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith ac roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol.

Roedd y staff yn glir ac yn hyderus o ran eu gallu i ymdrin ag unrhyw bryderon.

Roedd trefniadau mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol, arfarniadau a recriwtio yn y clinig yn dda ac yn sicrhau bod y staff perthnasol yn cael eu cyflogi a'u datblygu.

Roedd pob polisi a gweithdrefn a welsom yn gyfredol ac yn cynnwys dyddiad adolygu ac enw'r sawl a oedd yn gyfrifol am yr adolygiad.

Roedd meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Adolygu'r datganiad o ddiben yn flynyddol
- Cynnwys yr adrannau perthnasol gyda gwybodaeth yn y canllaw i gleifion.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau yn gyfredol
- Roedd polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol
- Roedd polisïau recriwtio yn cael eu dilyn wrth recriwtio staff.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

